Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

5. Ymddiriedolwyr a llywodraethu

5.8 Yswiriant indemniad ymddiriedolwyr

Mae yswiriant indemniad ymddiriedolwyr (YIY) yn cynnig sicrwydd yswiriant sy'n indemnio ymddiriedolwyr elusennau rhag atebolrwydd a all godi'n ddiarwybod neu o ganlyniad i weithredu'n esgeulus yn groes i'w dyletswyddau fel ymddiriedolwyr, fel arall gallant fod yn euog o dor-ymddiriedaeth a bod yn atebol yn bersonol i wneud iawn am unrhyw golledion i'r elusen neu drydydd parti.

Sylwer: Dylid darllen y daflen wybodaeth hon ar y cyd ag *Atebolrwydd ymddiriedolwyr ac aelodau cyrff llywodraethu* (5.7)

Mae'r cyfyngiadau ar brynu YIY wedi cael eu llacio gan Ddeddf Elusennau 2006 ac mae'n debyg mai dyma fydd y ffynhonnell fwyaf cyffredin o awdurdod lle nad oes gwaharddiad penodol yn erbyn prynu yn y ddogfen lywodraethu.

Awdurdod i brynu YIY

Yn ôl y gyfraith, rhaid i elusennau gael awdurdod i brynu YIY. Mae hwn i'w gael:

- yn y ddogfen lywodraethu
- o dan Ddeddf Elusennau 1993, adran 73F (fel yr ymgorfforwyd yn Neddf Elusennau 2006, adran 39) pan fod ymddiriedolwyr o'r farn ei fod er lles yr elusen ac os nad oes gwaharddiad penodol yn erbyn ei brynu yn y ddogfen lywodraethu
- trwy Orchymyn y Comisiwn Elusennau, neu Gynllun lle mae gwaharddiad penodol yn y ddogfen lywodraethu
- trwy Orchymyn Llys.

Dywed canllaw Gweithredol y Comisiwn Elusennau (OG100):

'Cyn belled â bod gan ymddiriedolwyr awdurdod mae ganddynt hawl i gael eu hyswirio yn erbyn hawliadau a all godi o'u gweithredoedd cyfreithlon fel ymddiriedolwyr, a byddant wedi eu gwarchod cyhyd â'u bod wedi ymddwyn yn onest a rhesymol.....

Y prif wahaniaeth rhwng YIY a mathau eraill o yswiriant a brynir er budd yr elusen yw bod YIY yn amddiffyn ymddiriedolwr unigol, yn hytrach na'r elusen ei hun.

Cyn belled â bod y gost yn rhesymol, gellir talu am YIY allan o gronfeydd yr elusen. Ond, trwy dalu am YIY fel hyn caiff ei weld fel budd personol, ac oherwydd hynny rhaid cael awdurdod priodol cyn y gall yr elusen ei brynu.....

Mae'r egwyddor hon yn wir hyd yn oed pan fod ymddiriedolwyr yn prynu YIY gyda'u harian eu hunain, ac yn dymuno hawlio ad-daliad gan yr elusen fel cost ddilys – ni ellir ad-dalu'r arian oni bai fod caniatâd penodol wedi'i roi i wneud hynny.

Mae sicrhau awdurdod priodol yn bwysig. Hebddo, nid oes unrhyw bolisi'n debygol o fod yn effeithiol, sy'n golygu bod posibilrwydd na fyddai cwmnïau yswiriant yn talu'r hyn a fyddai fel arall yn hawliad dilys. Byddai'r elusen wedi gwastraffu ei harian, ac yn dechnegol byddai'r ymddiriedolwyr yn euog o "dor-ymddiriedaeth", a gallant fod yn agored i orfod ad-dalu'r gost yn ôl i'r elusen (OG100 C4).

Mae'r pwerau newydd a ymgorfforwyd i Ddeddf Elusennau 2006 yn caniatáu prynu YIY yn amodol ar rai gofynion a chyfyngiadau:

- Rhaid i'r penderfyniad i brynu fod er budd yr elusen – hynny yw, ei fod o fantais bendant i'r elusen – a dylai'r penderfyniadau gael eu cofnodi'n fanwl i gadarnhau hyn.
- Mae'r penderfyniad yn amodol ar y 'dyletswydd gofal' o dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, adran 1(1) sydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr ddefnyddio sgiliau a gofal rhesymol, defnyddio unrhyw wybodaeth a phrofiad arbenigol sydd ganddynt, a gofyn am gyngor os bydd angen.
- Dim ond rhai mathau o atebolrwydd y gall yr yswiriant eu cynnwys.
- Dylid sicrhau cymal cyfyngu addas yn y dogfennau polisi i adlewyrchu'r cyfyngiadau statudol.

Beth all YIY ddiogelu yn ei erbyn?

Gall ymddiriedolwyr felly drefnu sicrwydd yswiriant ar gyfer:

- unrhyw atebolrwydd personol am dor-ymddiriedaeth neu dor-dyletswydd yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwyr neu ymddiriedolwyr daliannol
- unrhyw esgeulustod, diffyg, tor-dyletswydd neu dor-ymddiriedaeth a gyflawnwyd ganddynt pan eu bod yn gweithredu fel cyfarwyddwyr neu swyddogion cwmni elusennol, neu unrhyw gwmni sy'n ymgymryd â gweithgareddau ar ran yr elusen (gan gynnwys sicrwydd ar gyfer 'cam-fasnachu' ond nid masnachu 'twyllodrus, yn ôl diffiniad Deddf Ansolfedd 1986).

Ond nid yw YIY ar gael i amddiffyn ymddiriedolwyr rhag atebolrwydd am weithredoedd yr oeddent yn gwybod eu bod yn dor-ymddiriedaeth neu'n dor-dyletswydd, neu a gyflawnwyd heb ystyried a oedd yn dor-ymddiriediaeth neu dor-dyletswydd. **Rhaid** i'r polisi YIY gynnwys cymal i sicrhau **na fydd** yn amddiffyn rhag:

- atebolrwydd am ddirwyon a bennir mewn achos troseddol, neu gosbau sy'n deillio o weithredoedd rheoliadol

- atebolrwydd sy'n deillio o amddiffyn achosion troseddol lle mae ymddiriedolwr yn euog o dwyll, anonestrwydd, neu gamymddwyn bwriadol neu fyrbwyll
- atebolrwydd sy'n deillio o ymddygiad y gwyddai'r ymddiriedolwr, neu y dylai fod yn gwybod, nad oedd er budd yr elusen.

Sylwer: Er nad oes angen pŵer bwriadol bellach os oes un un wedi'i gynnwys mewn dogfen lywodraethu newydd ni all ymestyn y tu hwnt i'r cyfyngiadau a amlinellir yn adran 73(F), ond gall fod yn fwy cyfyngol.

Ystyriaethau ymarferol

Gan mai bwriad YIY yw yswirio yn erbyn atebolrwydd personol yr ymddiriedolwyr o ran unrhyw dor-ymddiriedaeth (h.y. dyletswyddau sydd ganddynt i'r elusen ei hun), nid yw'n yswiriant yn erbyn atebolrwydd yr elusen ei hun i drydydd partïon - rhaid cael mathau eraill o yswiriant ar gyfer hyn.

Felly, ni fydd yn diogelu rhag:
- atebolrwydd i drydydd partïon am dorri amodau contract; taliadau diswyddo, neu gamweddau megis esgeulustod a niwsans
- atebolrwydd dirprwyol am weithredoedd eich cyflogeion
- atebolrwydd am 'fasnachu twyllodrus' gan gyfarwyddwyr cwmni
- colledion yn deillio o fethu ag yswirio.

Bydd YIY yn aml yn cael ei werthu fel polisi cyfun gyda mathau eraill o sicrwydd a all gynnwys:
- Yswiriant atebolrwydd proffesiynol (e.e. ar gyfer cyngor esgeulus)
- Yswiriant ffyddlondeb neu 'ladrad gan gyflogai
- Yswiriant Ad-dalu Ymddiriedolwyr (yn diogelu yn erbyn diffygion yn asedau'r elusen lle caniateir indemniad – gweler isod)

Sylwer: Mae YIY ar y cyfan yn bolisi 'hawliadau a wneir'. Mae hyn yn golygu bod yswiriant perthnasol yn cyfeirio at y cyfnod pan wneir yr hawliad, ac nid pa bryd y digwyddodd y weithred ei hun. Er enghraifft, os gwnaethpwyd penderfyniad ynghylch buddsoddiad heb dderbyn cyngor priodol a arweiniodd at golled y flwyddyn ddiwethaf pan oedd YIY wedi'i drefnu, ond bod camau heb eu cymryd gan ymddiriedolwyr i adennill yr arian tan eleni, y polisi perthnasol i hawlio yn ei erbyn fyddai un eleni (y flwyddyn pan wnaethpwyd yr hawliad). Os na chafodd polisi'r llynedd ei adnewyddu yna ni fydd sicrwydd yswiriant ar gael i hawlio yn ei erbyn. Efallai y bydd modd i chi brynu sicrwydd ôl-weithredol ond gall hyn fod yn anodd yn achos YIY. Felly, dylid cymryd golwg tymor hir pan fyddwch yn cynllunio ac yn trefnu'r math hwn o yswiriant.

A ddylem ni brynu YIY?

Beth bynnag fo'u sicrwydd yswiriant, mae gan ymddiriedolwyr elusennau hawl i gael eu hindemnio trwy asedau'r elusen o ran eu hatebolrwydd, eu costau a threuliau os gellir dangos bod y rhain wedi codi wrth iddynt gyflawni'u dyletswyddau ac wrth weithredu eu hymddiriedolaethau a'i disgresiwn yn briodol. Os na fydd asedau digonol ar gael i sicrhau atebolrwydd llwyr, gellir cael sicrwydd trwy Yswiriant Ad-dalu Ymddiriedolwyr. Os na fydd asedau neu sicrwydd yswiriant digonol, bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr atebol fod yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion.

Ond mae'n bwysig cofio nad yw YIY yn cynnig amddiffyniad llawn rhag atebolrwydd, ac anaml iawn bydd ymddiriedolwyr sydd wedi ymddwyn yn onest yn dioddef colledion ariannol o ganlyniad i fod yn ymddiriedolwyr - ac ni all ymddiriedolwyr anonest a byrbwyll gael eu diogelu gan yswiriant beth bynnag.
Efallai y bydd rhai elusennau'n teimlo bod angen iddynt brynu YIY fel ffordd o leddfu'r ofn o fod yn atebol ymhlith ymddiriedolwyr posibl, ond dylid gwneud y penderfyniad bob amser yn erbyn y meini prawf a amlinellir uchod. Nid yw'r Comisiwn Elusennau'n derbyn bod yr hawl i brynu YIY yn gallu helpu wrth geisio recriwtio ymddiriedolwyr ond mae o'r farn bod polisi rheoli risg cadarn sydd wedi'i weithredu'n dda'n gallu bod yn gam cyntaf i ddiogelu yn erbyn atebolrwydd.

Mae manylion llawn a chanllawiau ar gael yng nghyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau:
- *Elusennau ac Yswiriant* (CC49)
- *Trustee Indemnity Insurance* (OG 100)

Gwybodaeth bellach

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Ffôn: 0870 333 0123
www.charity-commission.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 enquiries@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:26/08/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk